

ADRODDIAD AROLWG
DEFNYDDWYR

EBRILL
2021



PANDEMIG COVID 19:

Effaith, Profiadau, Cefnogaeth
a Symud Ymlaen

12 Ffordd y Gogledd • Caerdydd • CF10 3DY
Ff: 029 2039 6974 E: admin@tgpcymru.org.uk

tgpcymru.org.uk

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â: communications@tgpcymru.org.uk.
TGP Cymru yw enw gweithiol Tros Gynnal Plant, Elusen Gofrestredig Rhif 1099878. Cofrestrwyd yn gwmni cyfyngedig drwy warant Rhif 04422485 (Cymru a Lloegr).
Swyddfa gofrestrdig: 12, Ffordd y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY.

CYNNWYS

Crynodeb	3
Cefndir yr Arolwg Ymchwil	4
Rhesymeg dros yr Arolwg Ymchwil	5
Dadansoddi Data a Moeseg	5
Trosolwg Ymchwil	5
Cryfderau a Chyfyngiadau	6
Canfyddiadau'r Arolwg Ymchwil	7
Canlyniadau'r Arolwg Effaith Covid	7
Arolwg Effaith Gwasanaeth TGP Cymru a Chanlyniadau Crynodeb	14
Casgliad ac Argymhellion	20
Atodiadau	22
Graffiau Oedran a Rhyw (1.1 1.2)	22
Cwestiynau a Chanlyniadau Effaith Covid 19 (2)	23
Cwestiynau a Chanlyniadau Effaith Gwasanaeth TGP Cymru (3)	24
Sylwadau ychwanegol gan rieni a gofalwyr	26

TGP Cymru
Covid 19: Arolwg Effaith a Symud Ymlaen
Chwefror - Mawrth 2021

Angela Felkin-Heins
Arweinydd Datblygu Cyfranogiad



CRYNODEB

Paratowyd yr adroddiad hwn gan TGP Cymru i gasglu barn plant a phobl ifanc yr oeddem wedi gweithio gyda nhw ers dechrau cyfnodau clo'r pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020 tan Chwefror 2021. Casglwyd y materion â blaenoriaeth yn yr adroddiad hwn drwy arolygon ar-lein dwyieithog a gwaith grŵp rhithwir wnaeth archwilio'r effaith yr oedd y pandemig wedi'i chael arb lant a phobl ifanc, a pha mor effeithiol oedd ymateb gwasanaethau TGP Cymru.

Er bod y plant a phobl ifanc oedd yn rhan o'r arolwg yn teimlo bod ganddynt reolaeth dros eu dyddiau, roedd eu hymatebion yn arddangos bod eu hiechyd meddwl a lles yn dioddef. Yn yr arolwg Comisiynydd Plant Cymru ym mis Tachwedd 2020 'Coronafeirws a Fi' (2020:11) dim ond 14% o bobl ifanc oedd yn teimlo bod eu hiechyd meddwl yn dioddef, tra bod 42% o'r bobl ifanc oedd yn rhan o'n harolwg ni'n credu mai prin iawn oedd yr adegau pan roedd eu hiechyd meddwl yn dda. Mae hyn yn gynydd sylweddol a gallai fod o ganlyniad i'r tarfu parhaus ar eu bywydau. O ganlyniad, roeddent yn credu y byddai'n cael effaith andwyol ar eu dyfodol, ac na fyddai'r cyfnod clo fyth yn dod i ben. Nododd Plant yng Nghymru (2020:11) hefyd, "dywedodd 71% mai methu â threulio amser gyda ffrindiau, ac yna methu ag ymweld ag aelodau'r teulu (53%) oedd yn cael yr effaith fwyaf.", sy'n adlewyrchu'r 87% o blant a phobl ifanc yn ein harolwg ni wnaeth nodi eu bod yn gweld eisiau siarad gyda phobl wyneb yn wyneb, er eu bod nhw'n eithaf hyderus yn defnyddio technoleg ddigidol i gysylltu â phobl.

O'r sylwadau ychwanegol gan blant a phobl ifanc, gwnaethant nodi'r ffyrdd arloesol y mae prosiectau TGP Cymru wedi bod yn ymgysylltu â nhw, e.e. gweithgareddau ar-lein a drwy'r post a chadw mewn cyswllt. Mae hyn oll wedi'u helpu nhw i gadw'n brysur yn ystod y cyfnod clo. Hefyd, roedd bron i hanner y plant a phobl ifanc yn credu y gallent gael cymorth ac mae canlyniadau'r arolwg TGP Cymru yn nodi bod y gefnogaeth hon yn ddefnyddiol, a bod plant a phobl ifanc yn teimlo fel eu bod yn cael eu parchu, bod rhywun yn gwrando arnynt a bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen.

<https://www.childcomwales.org.uk/coronavirus-our-work/coronavirus-and-me-results/>



Cefndir TGP Cymru a'r Arolwg Ymchwil

Elusen arweiniol Gymreig yw TGP Cymru sy'n gweithio gyda rhai o'r plant, pobl ifanc a theuluoedd mwyaf ymylol ac agored i niwed yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda nhw i gynnig cefnogaeth annibynnol a chyfrinachol drwy eiriolaeth, cyfranogiad, cyfarfodydd grwpiau teuluoedd, ymagweddau adferol a datrys gwrthdaro. Rydym yn gweithio i roi llais i blant, pobl ifanc a theuluoedd, yn ogystal â sicrhau eu bod nhw'n gallu dweud eu dweud ar eu dyfodol a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu parchu.

Mae TGP Cymru yn cynnwys 9 o brosiectau ledled Cymru. Eiriolaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Eiriolaeth Gogledd Cymru, Eiriolaeth Cwm Taf Morgannwg, Teithio Ymlaen i gymunedau Sipsi, Roma neu Deithwyr, Rhaglen Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Ifanc, Tîm o amgylch y gwasanaeth Tenantiaeth i bobl ifanc rhwng 18-25 oed oedd yn derbyn gofal o'r blaen ac sy'n cael trafferthion o ran llety/tenantiaeth, Ymagwedd Adferol Cyn-filwyr a'u Teuluoedd a Gwasanaeth Cyfarfod Grŵp Teuluoedd Ymagwedd Adferol i deuluoedd sy'n profi gwrthdaro ac sydd angen cefnogaeth i ddod o hyd i ddatrysiadau, a Phasbortau Cyfathrebu yn Ynys Môn a Gwynedd.

Yn 2020, bu i'r pandemig Covid 19 darfu'n sylweddol ar fywydau pobl ym mhob cwr o'r byd ac oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol a chyfnodau clo, roedd yn rhaid i brosiectau TGP Cymru addasu'r ddarpariaeth gwasanaeth yn helaeth i blant a phobl ifanc. Wedi bron i flwyddyn o gyflawni gwasanaeth o bell, mae TGP Cymru'n awyddus i ddeall effaith cyfyngiadau Covid-19 ar blant a phobl ifanc yr ydym yn eu cefnogi, a sicrhau bod eu profiadau, lleisiau a syniadau'n rhan hanfodol o'n cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Cafodd gweithwyr cyfranogiad o bob prosiect eu dewis i helpu gyda'r broses hon, a gwnaethant wahodd plant a phobl ifanc o bob rhan o brosiectau TGP Cymru i gymryd rhan mewn arolwg er mwyn casglu data ansoddol a meintiol yn egluro sut roeddent yn teimlo am y cyfnodau clo yn ystod y

pandemig, a sut roedd TGP Cymru wedi ymateb drwy addasu ei wasanaethau. Sefydlwyd 'Grŵp leuenctid' TGP Cymru gan gynnwys pob prosiect, ac ymgynghorwyd â nhw am y cwestiynau yr oeddem am eu gofyn i blant a phobl ifanc. Awgrymon nhw sut ddylid siapio a chyflwyno'r cwestiynau hyn.

Ym mis Chwefror a Mawrth 2021, cynhaliodd TGP Cymru arolygon. Roedd pob arolwg yn cynnwys yr un cwestiynau, ond roeddent wedi'u hysgrifennu mewn ffyrdd gwahanol i alluogi dealltwriaeth y grwpiau gwahanol rydym yn gweithio gyda nhw. O hyn, roedd TGP Cymru eisiau dysgu am brofiadau plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig Covid 19 a chlywed sut mae'r dulliau ymgysylltu wedi'u haddasu wedi bod yn effeithiol o ran cyrraedd plant oedd angen help, yn enwedig y rhai nad ydym yn clywed ganddynt yn aml.



Rhesymeg dros yr Arolwg Ymchwil

Mae sawl arolwg wedi cael ei gynnal yng Nghymru a Lloegr gydol pandemig 2020/21 er mwyn dysgu am effaith y cyfnodau clo Covid 19 a sut mae hyn wedi effeithio ar iechyd a lles plant a phobl ifanc. Mae hyn wedi rhoi man cychwyn da i TGP Cymru o ran profiadau plant a phobl ifanc, er bod rhai o'r arolygon hyn yn cynnwys data o Gymru a Lloegr, ac felly nid ydynt yn cynnig darlun cyflawn o brofiadau plant a phobl ifanc o Gymru.

Mae'r astudiaethau hyn yn dyddio o fis Hydref 2020 pan nad oedd graddfa'r tarfu'n amlwg eto. Ar ôl blwyddyn o weithio o bell gyda phlant a phobl ifanc roeddem yn awyddus i weld os, neu sut, roedd profiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru o'r pandemig wedi newid wrth iddynt addasu.

Dadansoddi Data a Moeseg

Cafodd plant a phobl ifanc wahoddiad gan eu gweithwyr TGP Cymru i lenwi'r arolwg drwy ddewis o arolygon ar-lein dwyieithog, un gydag atebion 'ie' a 'na' ac un gyda graddfa o 5 o ymatebion. Roedd gan bob arolwg y cyfle i roi sylwadau ychwanegol er mwyn i blant a phobl ifanc ehangu ar sut roeddent yn teimlo. Roedd hefyd copïau papur ar gael i blant a phobl ifanc oedd angen rhywun i siarad drwy'r arolwg gyda nhw, a hefyd i'r rhai oedd angen cyfieithwyr ychwanegol.

Yn ystod y cam gwahodd, ac ar ddechrau'r arolwg, eglurwyd bod cyfranogiad yn wirfoddol ac yn ddiennw. Hefyd, dewis yr ymatebwr oedd pa gwestiynau yr oedd yn dewis eu hateb wrth lenwi'r arolwg. Cafodd pobl ifanc o bob prosiect wahoddiad hefyd i fod yn rhan o'r 'Grŵp Ieuencid' a bachodd 6 o bobl ifanc ar y cyfle i helpu gyda chymau cychwynnol creu'r arolwg.

Mae'r holl sylwadau yn yr adroddiad hwn wedi cael eu hail-gynhyrchu fel y cawsant eu hysgrifennu gyntaf gan y bobl ifanc, ac maent ond yn nodi oedran a rhyw, os cafodd hynny ei nodi, er mwyn parhau cyfrinachedd. Os trafodwyd enwau'r gweithwyr, mae'r rhain wedi'u dileu er mwyn cynnal cyfrinachedd. Mae'r sylwadau a ddaeth o'r grŵp o bell wedi cael eu cyfuno gan y gweithiwr arbenigol ac maent yn adlewyrchu barn y grŵp.

Trosolwg Ymchwil

Nod yr astudiaeth ymchwil hon oedd clywed barn plant a phobl ifanc y mae TGP Cymru wedi gweithio gyda nhw ers dechrau'r pandemig Covid 19 ym mis Mawrth 2020.

Nod y cwestiynau a ofynnwyd oedd ymchwilio:

1. Beth oedd profiadau'r plant a phobl ifanc o bandemig Covid 19?
2. Ut maent wedi ymdopi gyda'r cyfyngiadau a'r cyfnodau clo yn ystod pandemig Covid-19?
3. Sut mae hyn wedi effeithio ar eu hiechyd a lles?
4. Oedden nhw'n gallu dod o hyd i gefnogaeth yn ystod pandemig Covid 19?
5. Pa mor effeithiol oedd darpariaeth a chymorth TGP Cymru wedi'i addasu i unigolion?
6. Sut roedd unigolion yn credu bod TGP Cymru yn eu trin nhw yn ystod pandemig Covid 19?
7. Beth, os oes rhai, yw'r gwersi i'w dysgu o'r profiadau hyn?
8. Pa ymatebion neu arferion allai gael eu cynnal ar ôl pandemig Covid 19?

(Mae holl gwestiynau'r arolwg a'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn atodiad 1)

Cryfderau a Chyfyngiadau


Roedd cymryd rhan yn yr arolwg yn hollol wirfoddol. Roedd gan rai o'r prosiectau fynediad cyfyngedig i blant a phobl ifanc gan fod eu gwaith yn bennaf gyda'r teulu ac nid y plant, neu roedd y plant yn rhy ifanc i fynegi barn e.e. babis, felly mae swm amrywiol o ymatebwyr o brosiectau gwahanol.

Fodd bynnag, roedd ymatebion ym mhob prosiect ac mae cyfanswm cynrychioladol o bob rhan o Gymru.

Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn yn dod o'r grŵp 'nad ydym yn clywed llawer ganddynt' ac felly mae'n bwysig casglu eu barn nhw ac adrodd arni.

Cynhaliwyd yr arolwg hwn bron i flwyddyn ar ôl y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020 ac felly roedd hi'n ddi-ddorol cymharu canfyddiadau'r arolwg hwn gyda rhai eraill a gynhaliwyd ar ddechrau pandemig Covid 19 gan Gomisiynydd Plant Cymru a sefydliadau eraill.

95 o ymatebwyr yn ôl brosiectau



Canfyddiadau'r Arolwg Ymchwil

Ymatebodd 95 o blant a phobl ifanc i'r arolwg gydag ystod oedran o 5+ oed. Roedd 14% o dan 11 oed, 40% rhwng 11-15 oed, 45% dros 16 oed ac ni ddywedodd 1% eu hoedran (gweler atodiad 1.1). Roedd 50% yn adnabod eu hunain yn wrywod, 45% fel benywod a 3% yn hyblyg o ran rhywedd, yn anneuaidd neu'n drawsryweddol; ni nododd 2% unrhyw rywedd, (gweler atodiad 1.2).

Roedd opsiynau gwahanol ar gyfer cwblhau'r arolwg gyda 46% yn llenwi'r arolwg safonol Saesneg ar-lein gyda graddfa 5 ateb, 3% yn llenwi'r arolwg safonol Cymraeg, 39% yn llenwi'r arolwg ar-lein Saesneg hawdd gydag atebion ie neu na a chwestiynau mwy syml, 1% yn llenwi'r arolwg hawdd Cymraeg ac 11% yn llenwi'r arolwg mewn grwpiau lle roedd angen gwasanaeth cyfieithu er mwyn sicrhau dealltwriaeth. Roedd cyfle i ychwanegu testun rhydd ym mhob arolwg, a gwnaeth y rhan fwyaf o'r plant a phobl ifanc lenwi hynny hefyd.


CANLYNIADAU EFFAITH COVID 19

Teimlo mewn Rheolaeth

Gofynnwyd i'r holl blant a phobl ifanc sut roedd pandemig Covid 19 yn effeithio ar eu bywydau, gan gadw mewn cof bod Cymru yn ei gyfnod clo hiraf ers dechrau'r pandemig ar adeg yr arolwg, ac o fis Rhagfyr 2020 roedd yr ysgolion yn dal i fod ar gau i ran fwyaf o'r boblogaeth ysgolion.

Roedd hi'n braf clywed bod 52% yn dweud eu bod yn teimlo mewn rheolaeth o'u bywydau bob dydd gyda dim ond 27% yn nodi eu bod prin iawn, neu fyth, yn teimlo mewn rheolaeth. Roedd hyn hefyd wedi'i adlewyrchu yn rhai o'r sylwadau, lle roedd rhai o'r bobl ifanc yn teimlo bod yr amodau'n waeth na'r cyfnod clo diwethaf, ac roedd rhai eraill yn bragmataidd iawn am yr holl sefyllfa.

RWYF WEDI TEIMLO BOD GEN I REOLAETH O FY MYWYD O DDYDD I DDYDD



"Mae'r ysgol wedi bod yn ddwys iawn ac rwy'n cael trafferthion enfawr gyda fy ngwaith ysgol y tro hwn oherwydd mae'r cyfnod clo hwn yn llawer mwy dwys na'r un blaenorol" **Benyw, 12 oed.**

"Nid yw'n hawdd, ond mae siarad gyda'i gilydd a sgwrsio gyda rhywun, waeth os yw'n beth bach iawn, yn gallu helpu i newid diwrnod rhywun o fod yn un trist i fod yn un hapus" **Gwryw, 24 oed.**

"Bywyd yw bywyd" **Gwryw, 17 oed.**

Fy Lles Cyffredinol a'm Dyfodol

Pan wnaethom ofyn a oedd iechyd meddwl a lles pobl ifanc yn cael eu heffeithio a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol, roedd yr ymatebion ychydig yn fwy negyddol gyda 42% yn nodi bod eu hiechyd meddwl prin iawn yn teimlo'n dda a 53% yn dweud eu bod yn credu fod y pandemig wedi effeithio ar eu gobeithion ar gyfer y dyfodol.

Mae'r sylwadau'n dangos yr effaith yr oeddent yn ei theimlo

"Trist, wedi laru ac yn cael f'anwybyddu gan Boris" **Benyw, 16 oed.**

"Nid yw'n hawdd, 'dw i wedi colli llawer o bethau pwysig yn fy mywyd mae wedi bod yn galed ar fy iechyd meddwl ond mae ychydig yn well nag yr oedd ar y dechrau" **Benyw, 16 oed.**

"Hapus rhai diwrnodiau a gall dyddiau eraill fod yn araf iawn. Gall creu a gweithredu syniadau gymryd amser gydol y flwyddyn, ond roedd arafu pethau'n bwysig yn anodd sicrhau nad oeddwn yn teimlo dan straen." **Gwryw, 17 oed.**

"Roedd yr/mae'r ail gyfnod clo yn anodd iawn. Mae'r ysgol mor ddwys ac yn peri straen. Roedd y cyfnod clo cyntaf yn llawer haws. 'Dw i byth yn cael amser i wneud pethau gan fod gen i gyfarfodydd Google trwy'r dydd. Felly mae'r wythnos yn bennaf yn llawn straen oherwydd gwaith ysgol" **Benyw, 13 oed.**

"Mae wedi bod yn ofnadwy. 'Dw i eisiau i bethau fynd yn ôl i normal." **Gwryw, 21 oed.**

"Wedi laru bod adref" **Benyw, 13 oed.**

"Teimlo ar goll am bob dim" **Gwryw, 15 oed.**

"yn sownd ac wedi diflasu" **hyblyg o ran rhywedd, 15 oed.**

"Dwi moen gwel ffrindiau, a mynd allan i gael bwyd. Siopa normal hefyd." **Benyw, 10 oed.**


"Poeni am fy addysg. Wedi colli fy angerdd dros nofio. Wedi colli'r angerdd dros ddawnsio yn fy nghanolfan leol. Yn teimlo'n llawn pryder am y dyfodol. Ro'n i'n meddwl fy mod i am fynd yn sâl oherwydd Covid. Teimlo bod pobl ifanc wedi cael eu gadael allan o'r rheolau a'r cyfyngiadau. Teimlo'n anghyfforddus yn gorfod astudio ar-lein, bydden i'n hoffi pe byddai pethau wedi bod yn wahanol" **Benyw, 17 oed.**

"Teimlo nad oedd pobl ifanc yn cael eu hystyried gan bobl oedd yn cyflwyno'r cyfyngiadau" **Gwryw, 12 oed.**


"'Dw i'n gweld eisiau mynd i'r pwll nofio. 'Dw i'n gweld eisiau fy ffrindiau, rwy'n falch bod gen i frodyr, chwaer a chefnodyd ar y safle." **Gwryw, 10 oed.**

"Rwy'n teimlo bod fy ngallu o ran gwneud gwaith Saesneg wedi cael ei effeithio gan y cyfnodau clo" **Gwryw, 17 oed.**

MAE FY IECHYD MEDDWL A FY LLESIANT WEDI BOD YN IAWN



ROEDDWN YN CREDU BOD COVID 19 WEDI EFFEITHIO AR FY NGOBEITHION AR GYFER Y DYFODOL



Sylwadau o'r gwaith grŵp:

Ar y cyfan, mae pobl ifanc wedi laru ac wedi casau peidio â gallu mynd allan mwy a chael mynediad i bethau fel pêl-droed a'r gampfa.

Roedd pob cyfranogwr wedi teimlo'n unig ac yn ynysig mewn rhyw ffordd yn ystod y pandemig ac yn enwedig yn ystod y cyfnod clo.

Mae o leiaf hanner y cyfranogwr wedi'i chael hi'n anoddach cysgu, ac yn poeni pryd fyddai newid yn cael ei roi ar waith. Roedd llawer hefyd yn poeni am deuluoedd mewn gwledydd eraill a sut roedd y pandemig yn effeithio arnyn nhw.

Roedd 6 allan o 10 o bobl ifanc yn rhwystredig bod oedi mawr o ran cael mynediad i unrhyw ddsbarth iaith, oedd yn rhwystredig ac roedd 2 o bobl ifanc wedi'i chael hi'n anodd gwneud gwaith Coleg ar-lein gyda'u dosbarth gyda chefnogaeth iaith annigonol, oedd yn gwneud iddynt deimlo dan bwysau.

Roedd ychydig o bobl ifanc wnaeth gymryd rhan yn yr arolwg yn teimlo'n eithaf da am eu sefyllfa

'Dw i wedi'i fwynhau a dweud y gwir...bod gartref gyda Mam a chael gwneud yr holl bethau rwy'n dwlu ar wneud...darllen, gwyllo teledu, chwarae gemau a chreu pethau.' **Benyw, 10 oed**

"Dw i'n iawn" **Gwryw, 18 oed**

"Mae'n dda ar y cyfan ond weithiau rwyf wedi diflasu" **heb nodi, 13 oed**

"Dw i ddim eisiau mynd yn ôl i'r ysgol gan fy mod yn mwynhau bod gartref, gwneud gwaith heb unrhyw beth yn tarfu a chael gwneud y pethau hwyl rwy'n mwynhau ei wneud." **Benyw, 10 oed**

"Rwy'n meddwl ei fod yn beth da oherwydd gallwch dreulio mwy o amser yn magu perthynas gyda'ch teulu, cyn y cyfnod clo ro'n i'n gallu mynd i'r pier ac i lan y môr, a bydden ni i gyd yn gwneud pethau gwahanol, ond gyda'r cyfnod clo rydym oll yn gwneud yr un pethau ac mae'n gwneud i chi deimlo'n agosach" **Gwryw, 11 oed**

STAY


HOME

BE SAFE

Ffyrdd i Ymlacio

Roedd ymlacio i weld yn anodd i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc gyda dim ond 38% yn dod o hyd i ffyrdd iach i ymlacio, er bod 29% wedi ymateb eu bod nhw'n gallu gwneud hyn weithiau.

FE WNES I DDOD O HYD I WEITHGAREDDAU I HELPU FI YMLACIO



"Gweld eisiau pêl-droed, gweld eisiau nofio" **Gwryw, 14 oed**

"Gweld eisiau mynd i'r gampfa" **Gwryw, 15 oed**

"Wedi casáu methu â mynd i'r holl siopau a lleoedd fel y pwll nofio" **Benyw, 11 oed**

Cafodd rhai pobl ifanc gymorth gan eu gofalwyr a hefyd drwy dderbyn adnoddau yr oedd gweithwyr TGP Cymru wedi'u hanfon atynt drwy'r post.

"Diog iawn, hunanhyder ar i lawr, ond helpodd fy ngofalwr maeth fi i ddod o hyd i ymarferion i deimlo'n well"
Gwryw, 13 oed

"roeddem ill dau yn mwynhau derbyn pethau drwy'r post, llyfrau a phosau gan....." **Gwrywod, 11 ac 8 oed**

"Roedd y post yn dda i godi calon" **Benyw, 16 oed**

"Syniadau da iawn i'n helpu gyda theimlo'n ynysig"
Benyw, 23 oed

"Hoffi cael llyfrau lliwio gan y dyn post" **Gwryw, 5 oed**

"Roedd y pethau yr oeddwn yn eu derbyn drwy'r post gan TGP yn ennyn diddordeb. Cefais lyfrau i mi fy hun. Diolch"
Benyw, 11 oed

"Dwlu ar ymuno â Zoom ar gyfer 'safe stars', ro'n i'n edrych ymlaen ato. 'Dw i'n hoffi cael post, llyfrau a phosau."
Gwryw, 15 oed

"Dwlu â chael posau yn y post. Hoffi derbyn post, fel arfer ni fyddaf yn cael dim" **Gwryw, 13 oed**


"Hoffi cael post, llyfrau a hadau" **Benyw, 10 oed**



Cyswllt wyneb yn wyneb

Y peth mwyaf i 87% o blant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod clo oedd methu siarad â phobl wyneb yn wyneb. Dyma'r mater a drafodwyd fwyaf wnaeth effeithio arnyn nhw yn ystod y pandemig.

ROEDDWN YN GWELD EISIAU SIARAD Â PHOBL WYNEB YN WYNEB



“Ro’n i’n gweld eisiau fy nheulu yn ystod y cyfnod clo. Nid oeddwn yn gallu gweld fy mam na fy chwaer.” **Benyw, 9 oed**

“Gall y cyfyngiadau fod yn ddryslyd iawn ond heblaw hynny, mae’n anodd iawn peidio â gweld pobl wyneb yn wyneb” **Benyw, 16 oed**

“Teimlo’n drist gan nad ydw i’n gweld fy ffrindiau” **Benyw, 17 oed**

“Dwi moen gweld a teimlo fy ffrindiau” **trawsryweddol, 16 oed**


“Rwy’n drist na allaf weld fy ffrindiau ac mae gweithio gartref ychydig yn anoddach na bod yn yr ysgol oherwydd mae’n anoddach canolbwytio” **Benyw, 12 oed**




Defnyddio'r Cyfryngau Digidol i Gyfathrebu

Fodd bynnag, roedd 52% o blant a phobl ifanc yn hyderus am ddefnyddio'r cyfryngau digidol i gadw mewn cysylltiad, ond dim ond 47% oedd yn hyderus o'u diogelwch ar-lein. Nodwyd hefyd bod mynediad i Wi-Fi ac offer cyfrifiadurol dibynadwy yn eithaf anodd i rai.

ROEDDWN I'N TEIMLO'N HYDERUS YN DEFNYDDIO GALWADAU FIDEO A CHYFRYNGAU DIGIDOL I GADW MEWN CYSWLLT Â PHOBL



ROEDDWN YN TEIMLO'N HYDERUS BOD DIOGELWCH AR-LEIN YN GEWITHIO'N EFFEITHIOL WRTH DDEFNYDDIO GALWADAU FIDEO A CHYFRYNGAU DIGIDOL



"Siaradais gyda fy nhad. Roedd hi'n haws ar y safle, ond nid oddi ar y safle. Nid oes gennym liniaduron. Nid ydym yn cael myned i'r llyfrgell i ddefnyddio'r rhyngwrwyd yno, felly rydym wedi bod mewn ychydig o drafferth, heblaw mae fy chwaer wedi derbyn llechen gan TGP" **Benyw, 17 oed**

"Ro'n i'n gallu cael mynediad i'r rhyngwrwyd yn yr ysgol yn unig. Ro'n i'n falch pan dderbyniais y celf a chreffft yn y post gan TGP. Ro'n i'n gweld eisiau fy ffrindiau yn yr ysgol." **Benyw, 11 oed**


Roedd rhai pobl o'r gwaith grŵp wedi gallu cael mynediad i offer a chymorth TG, ond roedd gan lawer gysylltiad gwael â'r rhyngwrwyd.



Cael Mynediad i Gymorth

Roedd hi'n galonogol gweld bod bron i hanner o'r plant a phobl ifanc yn teimlo y gallent gael mynediad i gymorth pan fo angen, gyda dim ond 28% yn dweud eu bod yn teimlo felly weithiau neu byth yn teimlo felly.

ROEDDWN I O'R FARN FY MOD YN GALLU CAEL Y CYMORTH ANGENRHEIDIOL



"Nes i ateb y cwestiwn hwnnw'n negyddol oherwydd yn ystod y cyfnod clo cyntaf, nid oeddwn yn gwybod bod modd i mi gael cymorth iawn" **Gwryw, 21 oed**

"Unig tan dechrau gweithio efo Tîm o amgylch y denantiaeth" **Benyw, 18 oed.**


Teimladau am y Cyfnod Clo

Wedi dweud hyn, roedd hi bron yn rhaniad 50:50 o ran deall y mesurau cyfnod clo yng Nghymru.

Dyweddodd Wryw 12 oed ei fod yn:


"Teimlo fel nad oedd pobl ifanc yn cael eu hystyried gan y rhai oedd yn gweithredu'r cyfyngiadau."

ROEDDWN I O'R FARN EI BOD YN HAWDD DEALL RHEOLAU CYFYNGIADAU SYMYD CYMRU



#STAY
AT
HOME

Y canlyniad mwyaf siomedig o'r arolwg effaith Covid 19 oedd pan ofynnem i blant a phobl ifanc a oeddent yn credu y byddai'r cyfnod clo yn dod i ben cyn bo hir, gyda 59% yn ateb na a dim ond 33% yn teimlo ychydig yn fwy positif am yr holl beth.




Arolwg Effaith Gwasanaeth TGP Cymru

Roedd Rhan 2 o'r arolwg yn gofyn i'r plant a phobl ifanc sut roeddent yn teimlo am weithio gyda TGP Cymru ers i'r pandemig a'r cyfnodau clo ddechrau fis Mawrth 2020. Roedd angen i TGP Cymru addasu ei wasanaeth yn gyflym, unwaith y cyflwynwyd y cyfyngiadau ar gyswllt wyneb yn wyneb, ac felly cafodd ffordd newydd o weithio ei chyflwyno er mwyn helpu'r plant a phobl ifanc mewn modd effeithiol ac effeithlon. Arweiniodd hyn at lawer o ffyrdd creadigol ac arloesol o ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc, ac yn ôl canlyniadau'r arolwg, mae i weld wedi bod yn effeithiol iawn. Roedd yr holl brosiectau'n dal yn gallu cyflawni gwasanaeth, gyda rhai'n cynnig gweithgareddau fel dosbarthiadau coginio ar-lein neu anfon adnoddau drwy'r post i gadw cyswllt gyda'r bobl ifanc. Hefyd, parhaodd pob prosiect gyda chyswllt agos gyda'r plant a'r bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda nhw drwy gyfathrebu'n rheolaidd dros y ffôn neu alwadau fideo, neu e-bost. Mae llawer o sylwadau ychwanegol yn rhan o'r arolwg hwn, a chysylltodd rhieni a gofaluwr gyda ni hefyd er mwyn cofnodi sylwadau positif.

Deall Gwasanaethau TGP Cymru

I ddechrau rhan hon o'r arolwg, roeddem am bennu beth roedd plant a phobl ifanc yn deall am y gwasanaethau yr oedd TGP Cymru yn eu cynnig. Arweiniodd hyn at ymateb positif iawn, gyda 98% yn nodi eu bod yn deall.



"Rwy'n teimlo'n dda am fod ag eiriolwr. Mae'n dda oherwydd rwy'n cael llawer o help." **Gwryw, 11 oed**

Roedd hyn yn galonogol oherwydd yn ystod y cynllunio a'r ymatebion cychwynol i'r arolwg, roedd peth tystiolaeth oedd yn nodi nad oedd pob person ifanc yn gwybod mai TGP Cymru oedd y sefydliad oedd yn gweithio gyda nhw. Dywedodd gweithwyr a phobl ifanc eu bod yn tueddu i uniaethu gyda'r gweithwyr unigol yn unig. Cafodd hyn ei gadarnhau gyda rhai o sylwadau gan bobl ifanc nad oedd yn deall y cwestiynau am weithwyr TGP Cymru, ac felly'n dewis peidio â'u hateb.

"Does gen i ddim gweithiwr TGP Cymru, rwyf wedi gweithio gyda.....mewn Fforwm" **Benyw, 12 oed**


"Dw i ddim yn deall y cwestiynau uchod" **Gwryw, 10 oed**

Gwnaethom nodi'r grwpiau hyn, ac yn lle, gofynnem iddynt am eu profiadau gyda staff TGP Cymru yn ystod y pandemig drwy destun rhydd, ac roedd yr ymatebion yn efelychu canlyniadau'r arolwg.


Deall fy Hawliau

Gwnaethom ofyn hefyd a oedd plant a phobl ifanc yn gwybod bod ganddynt ddewis ynghylch gweithio gyda TGP Cymru, ac unwaith eto dywedodd 99% eu bod yn deall hynny. Pan ofynnwyd a oedd eu gweithiwr wedi sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawliau fel person ifanc, unwaith eto nododd 95% o'r plant a'r bobl ifanc bod hynny'n wir.

ROEDDWN I'N DEALL Y GALLWN I DDEWIS OS GALLAI TGP CYMRU
WIETHIO GYDA MI A PHRYD Y BYDDAI HYNNY



ROEDDWN YN YMWBODOL O FY HAWLIAU FEL PLENTYN
A PHERSON IFANC



Dywedodd pob un o'r 10 o bobl ifanc oedd ynghlwm wrth y sesiynau gwaith grŵp bod eu heiriolwr a/neu weithiwr cyfranogiad wedi dweud wrthynt beth oedd eu hawliau, ac yn gwrando arnynt a'r hyn yr hoffent ei ddweud.

“Pan gefais eiriolwr am y tro cyntaf dwy flynedd yn ôl, roedd yn help mawr i mi i ddeall am fy hawliau ac y dylai fy marn gael ei chlywed. Roedd fel llinell bywyd i mi, ac ers hynny rwyf wedi cael cymorth a chefnogaeth gyda fy mhroblemau, ac mae TGP wedi fy helpu i oroesi amser anodd iawn. Rwy'n falch bod pethau'n well a gallaf gynllunio fy nyfodol o fan hyn.”

“Mae gwybod am hawliau sy'n wahanol i rai yn fy ngwlad fy hun wedi bod yn wych i mi, ac wedi fy helpu i gael llais a siarad ar ran pobl eraill yn fy sefyllfa hefyd.”

“Rwy'n falch iawn fy mod wedi cwrdd â phobl yn TGP gan ei fod wedi newid fy mywyd mewn ffordd dda ac wedi rhoi cymaint o gyfleoedd i mi i gael dweud fy nweud am hawliau pobl ifanc a sut y dylent gael ein trin yn gyfartal” “Mae fy eiriolwr yn gwrando arnaf ac mae ar gael i mi o hyd, mae'n gwneud cymaint mwy nag unrhyw un arall ddylai fod yn gofalu amdanaf. Nawr gyda chyfarfodydd grŵp ar-lein, rwy'n dysgu mwy am hawliau a sut gallent wella pethau.”


“Gwych cael siaradwr Cymraeg. Mor bwysig cael gweithwyr Cymraeg ar gael. Dwi yn gwybod na dim ond un person Cymraeg sydd yn y tîm fodd bynnag a dwi yn meddwl y dylai bob swydd newydd recriwtio rhywun dwy ieithog fel mae'r cynghorau yn gwneud yn enwedig mewn swyddi yng Ngogledd Cymru lle weithiau mae pobl angen disgwyl am rhywun Cymraeg i weithio efo nhw.”

Gwryw, 21 oed


Deall Cyfathrebu Ysgrifenedig ac Ar Lafar

Roedd hefyd yn braf cael gwybod bod yr wybodaeth a roddir i blant a phobl ifanc yn hawdd ei deall, waeth os oedd yn cael ei rhannu ar lafar neu'n ysgrifenedig. Fodd bynnag, wrth feddwl am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i blant a phobl ifanc drwy ddulliau digidol, nid oedd y wefan a'r platfformau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio llawer. Mae rhai eithriadau i hyn gydag ychydig o safleoedd cyfryngau cymdeithasol ar gyfer prosiectau'n cael eu defnyddio'n effeithiol iawn er mwyn rhoi'r diweddaraf i blant a phobl ifanc.

RHOEDDWN I O'R FARN BOD UNRHYW WYBODAETH YSGRIFENEDIG YR OEDDWN NHW WEDI EI RHOI I MI YN HAWDD EI DEALL




ROEDD HI'N HAWDD I MI DDEALL FY NGWEITHIWR




Gwefan TGP a Safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol

Dywedodd 61% o blant a phobl ifanc nad oeddent yn defnyddio gwefan TGP Cymru'n aml, neu byth yn ei defnyddio, gyda dim ond 27% yn nodi eu bod wedi'i defnyddio. Roedd cyfryngau cymdeithasol TGP Cymru yn gwneud ychydig yn well gyda 30% yn eu defnyddio, ond gallai hyn fod yn faes ar gyfer gwella.

RWY'N DEFNYDDIO GWEFAN TGP CYMRU I DDOD O HYD I WYBODAETH



ROEDDWN I'N TEIMLO'N GYFFORDDUS YN GOFYN CWESTIYNAU I FY NGWEITHIWR



Sut cefais fy nhrin gan fy ngweithiwr TGP Cymru?

Dywedodd 98% o blant a phobl ifanc ei bod hi'n hawdd siarad gyda'u gweithiwr TGP Cymru,

"Rwyf wir yn gwerthfawrogi natur annibynnol eich gwasanaeth; mae'n teimlo fel y gallaf siarad yn blaen gyda chi" **Gwryw, 17 oed**

"Mae wastad yno i wrando arnaf a fy helpu." **Benyw, 9 oed**

"Ro'n i'n teimlo fel bod y gweithwyr TGP Cymru yn rhoi llawer o gefnogaeth i mi ac yn gwrandao arnaf fi" **Benyw, 16 oed**


a dywedodd 100% eu bod yn teimlo fel eu bod yn cael eu trin gyda pharch, a bod rhywun yn gwrandao ar eu barn.

"Roedd yn wych gyda fi pan nad oedd y cyngor yn gwrandao arnaf am fod yn ddigartref. Gadawodd y cyngor fi ar y stryd ac roedd yn gefn i mi drwyddi draw, ac nid oeddent yn diystyru'r peth oherwydd yn gyfreithiol roedd y cyngor i fod i fy helpu, ond gwnaethant wrthod. Rhoddodd daleb Just Eat i mi hyd yn oed oherwydd roedd yn rhaid i mi fynd i lety gwely a brecwast milltiroedd i ffwrdd a doedd unman ar agor i mi brynu bwyd y noson honno. Y pethau bach sy'n cyfrif. Mae ill dau wir yn poeni am y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Dyna beth sy'n gwneud y Tîm o Amgylch y Denantiaeth yn wych. Nid oes unrhyw un wedi gofalu amdanaf fel hyn o'r blaen. Rwy'n teimlo fel bod modd i mi ofyn cwestiynau, ac ni fyddant yn meddwl fy mod yn dwp ac maent yn fy nghredu i pan fyddaf yn dweud pethau. Y bobl orau erioed!!" **Gwryw, 21 oed**


"Nid ydynt yn fy marnu. Maent yn poeni amdanaf ac yn anfon taleb" **anneuaidd, 13 oed**

"Tîm o Amgylch y denantiaeth wedi bod yn lifesaver i fi. Methu dioddef PA fi. Gweithwyr TGP yn gwrandao a parchu dymuniadau fi." **Benyw, 18 oed**

ROEDDWN I'N TEIMLO'N GYFFORDDUS YN GOFYN
CWESTIYNAU I FY NGWEITHIWR



ROEDDWN O'R FARN BOD TGP CYMRU WEDI FY NHRIN
Â PHARCH AC WEDI GWRANDO AR FY MARN



Dyweddodd 99% eu bod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn oedd yn digwydd gydol y broses,

“mae’n peri straen oherwydd mae oedi gyda’r achos mewnfudo oherwydd y pandemig, ond mae fy eiriolwr yn egluro beth sy’n digwydd”

“ni all fy ngweithiwr newid y ffaith nad oes unman ar agor, a does dim modd i mi gael cefnogaeth na phryd o fwyd fel o’r blaen, ond mae’n rhoi gwybod i mi pa bethau gallaf eu gwneud ac os oes rhywle ar agor i mi fynd yno”

a nododd 90% bod eu gweithiwr wedi’u helpu nhw i ddefnyddio eu sgiliau a’u galluoedd i gyflawni eu targedau.

*“Rwy’n ddiolchgar iawn ac yn lwcus o allu creu syniadau a phrosiectau ar gyfer y dyfodol, gan fy mod yn cael cefnogaeth wych.” **Gwryw, 17 oed***


*“Helpodd fi i gael llechen, ac yna ro’n i’n gallu ymuno â grwpiau, rwyf wedi bod yn coginio ar-lein. Ro’n i hefyd wrth fy modd yn derbyn llyfrau drwy’r post yn ystod y cyfnod clo, doedd gen i ddim cyn y cyfnod clo. Rwyf nawr hefyd yn edrych ar sut allaf siarad yn gyhoeddus.” **Benyw, 16 oed***

*“Dw i’n hoffi’r origami ar-lein, bydden i’n hoffi rhagor o rheiny.” **Benyw, 14 oed***


*“Siomedig iawn bod rhaid i mi fod ar gau. Roedd yn fy helpu gyda’r stwff nad oedd y PA yn ei wneud, mae hi’n wael iawn. Rwyf dal yn gallu gwneud coginio a chrefftau sy’n dda, oherwydd does gen i ddim llawer mwy na hynny dan y cyfyngiadau presennol.” **Benyw, 19 oed***

*“Mae bod â TGP wedi helpu oherwydd ro’n i’n cael fy annog i fynd am dro, cymryd rhan mewn ffotograffiaeth yn barod i greu’r Calendr TGP. Ro’n i’n edrych ymlaen at weld pawb ar y sgrin. Roedden ni’n caru creu’r fideo cael te gyda TGP; byddai’n wych gwneud y math hwn o beth eto. Ro’n i hefyd yn hoffi’r talebion ffôn fel bod modd i mi gadw mewn cysylltiad. A’r llyfrau croeseiriau a anfonodd” **Benyw, 12 oed***

TEIMLAIS FY MOD YN CAEL Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YR HYN A OEDD YN DIGWYDD DRWY GYDOL Y BROSES GYFAN



FE WNAETH TGP CYMRU FY HELPU I WELD BOD MODD I MI DDEFNYDDIO FY SGILIAU A FY NGALLUOEDD I GYFLAWNI FY AMCANION



Dyma'r cwestiwn olaf am wasanaeth TGP Cymru wedi'i addasu:

Oeddech chi'n meddwl bod gweithio gyda TGP Cymru yn ddefnyddiol?

Ac unwaith eto, roedd ymateb cryf iawn gyda 99% yn nodi ei fod yn ddefnyddiol.

"Un o'r eiriolwyr gorau erioed" **Gwryw, 13 oed**

"Rydych chi wedi bod yn ddefnyddiol pob amser" **Benyw, 11 oed**

"Mae fy eiriolwr wedi fy nghefnogi ym mhob ffordd" **Benyw, 13 oed**

"Ro'n i'n mwynhau'r galwadau gyda TGP" **Benyw, 9 oed**

"Roedd hi'n dda iawn ac ro'n i'n hoffi ei chi." **Benyw, 8 oed**

"Mae fy ngweithiwr wedi bod yn wych" **Gwryw, 11 oed**

"Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr, rwy'n cael aros yn y wlad" **Benyw, 17 oed**

"Rwy'n mwynhau tynnu coes; mae wastad yn hwyl dda ac rwy'n gweld eisiau ei hymweliadau" **13 oed**

"Mae yn hoffi gwneud i bobl ifanc deimlo'n dda. Gwnaethon nhw anfon pethau yn y post ddaeth i fy nrws. Gwnaeth hynny i mi deimlo'n hapus." **Benyw, 11 oed**

"Ie mae hi wastad yno i helpu pan fo angen"

"Mae ganddynt ddealltwriaeth dda ac yno i helpu" **Benyw, 14 oed**

"Mae fy aelod o'r tîm wedi siarad gyda mi a gofyn sut rydym wedi bod. Wrth brofi adeg fydd yn newid fy mywyd yn dod allan yn hoyw

yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, rhoddodd gefnogaeth i mi fynd drwy hynny." *"Fel aelod o symud ymlaen mae llawer iawn i'w ddweud, ond ar y cyfan mae'r tîm symud ymlaen yn anhygoel"* **Gwryw, 23 oed**

"Dw i heb gwrdd â hi wyneb yn wyneb oherwydd roedd hyn yng nghanol y cyfnod clo, ond mae'n garedig ac yn barod i fy helpu i ddeall pethau"


"gall fy eiriolwr fy helpu mewn cyfarfodydd ar-lein a chyda dehonglwr dros y ffôn pan mae angen i mi siarad gyda hi"

"Rydym yn mwynhau gallu cwrdd ar-lein a siarad a dysgu pethau newydd, oherwydd mae mor ddiflas peidio bod â llawer i'w wneud. Mae TGP yn gwneud llawer ar ein rhan"

"Mae fy mrodyr a'm chwiorydd wedi mwynhau cael pethau drwy'r post, mae wedi'n gwneud ni'n hapus. Roedd Mam yn teimlo fel ei bod yn cael cefnogaeth Mae TGP wedi'n helpu ni i gael bwyd ar gyfer y Nadolig, a chawsom focs mawr yn llawn bwyd. Mae'r holl deulu wedi derbyn pethau drwy'r post. Mae fy mrawd iau yn cyfri'r adar ar y safle oherwydd y llyfr y mae wedi'i gael. Diolch." **Gwryw, 17 oed**


"Diolch" **16 oed**

ROEDDWN O'R FARN BOD GWEITHIO GYDA TGP CYMRU O GYMORTH



CASGLIAD AC ARGYMHELLION


SUT MAE TGP CYMRU WEDI CYSYLLTU Â CHI ERS Y PANDEMIG?



Nododd plant a phobl ifanc eu bod wedi cael cysylltiad gyda TGP Cymru mewn llawer o ffyrdd gwahanol ers dechrau'r pandemig Covid 19.

Pan ofynnwyd iddynt sut yr hoffent gael cysylltiad yn y dyfodol, dywedodd 52% yr hoffent fynd yn ôl i gyswllt wyneb yn wyneb, ac roedd yr hanner arall yn ffafrio dulliau amgen. Roedd 23% yn ffafrio galwadau ffôn, 19% yn ffafrio galwadau fideo, 5% yn ffafrio e-byst ac 1% yn ffafrio llythyrau, er rwy'n credu y byddai hyn yn golygu gweithgareddau drwy'r post yr oedd llawer o blant a phobl ifanc wirioneddol wedi mwynhau eu derbyn.

SUT FYDDWCH CHI YN CYNNIG I GYSYLLTU Â TGP CYMRU OS YDYCH CHI'N GWEITHIO Â HYN YN Y DYFODOL




"Rwy'n hoffi'r galwadau fideo gyda chi; mae'n wych oherwydd mae'n gyflym ac yn rhwydd, ac yna gallaf fynd yn ôl at fy mhethau....ddim yn bwriadu'ch digio drwy ddweud hynny." **Benyw, 10 oed**

ARGYMHELLION O'R AROLWG HWN

1. O'r canlyniadau uchod, gellid sicrhau bod rhagor o ddewis ar gael i blant a phobl ifanc o ran sut maent yn cysylltu gyda TGP Cymru, efallai drwy drefnu dull cyfunol, felly cynnig cyfarfod wyneb yn wyneb i ddechrau ac yna ystyried dewisiadau eraill i barhau i gydweithio.
2. Gallai'r effaith y mae'r cyfnod clo wedi'i chael ar iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc hefyd nodi angen ar gyfer rhaglen sgiliau personol grŵp o bell ledled Cymru i adeiladu gwydnwch iechyd meddwl pobl ifanc e.e. hunan-hyder neu dechnegau lleihau straen. Gallai'r gweithwyr TGP Cymru atgyfeirio plant a phobl ifanc a gellid ystyried parhau â'r dosbarthiadau creadigol ar-lein e.e. coginio. Gellid dod o hyd i gyllid ar gyfer hyn.
3. Mae angen i reolwyr sicrhau bod gweithwyr yn gallu siarad yn newis iaith y plant a'r pobl ifanc.
4. Arolwg ar-lein blynyddol i sicrhau bod TGP Cymru yn dal i gyflawni'r safonau gwasanaeth disgwylidig, yn ogystal â ffurflenni adborth prosiectau. Dylid annog i'r rhain gael eu cyflawni'n annibynnol ac yn unigol.
5. Dylai pobl ifanc wastad allu dewis bod yn rhan o grŵp cynghori TGP cenedlaethol sy'n dal TGP Cymru i gyfrif am gwblhau camau gweithredu a nodir.
6. Darparu gwefan TGP Cymru sy'n hawdd ei defnyddio ac sy'n addas at y diben i blant a phobl ifanc ac oedolion hefyd, gyda mynediad i linellau cymorth a gwasanaethau lles.
7. Ymchwilio pa mor llwyddiannus yw safleoedd cyfryngau cymdeithasol TGP Cymru a phenderfynu a oes angen mwy.
8. Mae angen hyrwyddo brand TGP Cymru yn well fel bod plant a phobl ifanc yn cysylltu'r brand gyda'r gwasanaeth.
9. Angen cynllun cadarn a chyflawnadwy, gan ddefnyddio'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol fel fframwaith, i sicrhau bod ymarfer cyfranogol yn dal i gael ei gynnal drwy gydol TGP Cymru.
10. Gellid defnyddio arolwg rhiant/gofalwr/gweithiwr proffesiynol ychwanegol i fesur sut mae TGP Cymru wedi effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc er gwell.

GWERTHUSO'R AROLWG


Cwestiynwyd hefyd pa mor hawdd oedd defnyddio'r arolwg ar y diwedd, ac ymatebodd plant a phobl ifanc gyda 83% yn nodi bod yr hyd yn iawn, 11% yn dweud ei fod yn rhy hir, 5% yn dweud ei fod yn anodd ei ddeall ac 1% yn dweud ei fod yn anodd ei lenwi. Felly, gellid defnyddio'r arolwg hwn fel templed ar gyfer arolygon pellach.




Mae sylwadau gan rieni a gofalwyr hefyd wedi'u hychwanegu ar ddiwedd yr atodiadau fel tystiolaeth ychwanegol, nad oeddent yn gallu cael eu cynnwys yn rhan o'r arolwg plant a phobl ifanc.

ATODIADAU

95 o ymatebwyr yn ôl oedran




Ymatebwyr yn ôl rhyw




	GWRYW	47
	BENYW	43
	HYBLYG RAN RHYWODD	1
	ANNEUAIDD	1
	TRAWSRYWEDDOL	1
	HEB EI BENNU	2
	CYFANSWM	95


Rwyf wedi teimlo bod gen i reolaeth o fy mywyd o ddydd i ddydd




Mae fy iechyd meddwl a fy llesiant wedi bod yn iawn




Roeddwn yn credu bod Covid 19 wedi effeithio ar fy ngobeithion ar gyfer y dyfodol




Roeddwn yn gweld eisiau siarad â phobl wyneb yn wyneb




Os oedd angen cymorth arnaf roeddwn yn gallu dod o hyd i rywun i siarad gyda nhw




Roeddwn i'n teimlo'n hyderus yn defnyddio galwadau fideo a chyfryngau digidol i gadw mewn cyswllt â phobl




Roeddwn yn teimlo'n hyderus bod diogelwch ar-lein yn gweithio'n effeithiol wrth ddefnyddio galwadau fideo a chyfryngau digidol




Fe wnes i ddod o hyd i weithgareddau i fy nghadw i'n brysur yn ystod y cyfyngiadau symud




Rwy'n teimlo'n well am eleni



Roeddwn i o'r farn fy mod yn gallu cael y cymorth angenrheidiol




Roeddwn i o'r farn ei bod yn hawdd deall rheolau cyfyngiadau symud Cymru




Astudiaeth Effaith Gwasanaethau TGP Cymru (gan gynnwys ymatebion i'r ddau arolwg)


Roeddwn i'n deall sut yr oedd TGP Cymru i fod i fy nghynorthwyo pan yr oedden nhw'n gweithio gyda mi




Roeddwn i o'r farn bod unrhyw wybodaeth ysgrifenedig yr oedden nhw wedi ei rhoi i mi yn hawdd ei deall




Roedd hi'n hawdd i mi ddeall fy ngweithiwr




Roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus yn gofyn cwestiynau i fy ngweithiwr




Roeddwn i'n deall y gallwn i ddewis os gallai TGP Cymru weithio gyda mi a phryd y byddai hynny




Roeddwn o'r farn bod TGP Cymru wedi fy nhrin â pharch ac wedi gwrandao ar fy marn




Teimlais fy mod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a oedd yn digwydd drwy gydol y broses gyfan




Roeddwn yn ymwybodol o fy hawliau fel plentyn a pherson ifanc




Rwy'n defnyddio gwefan TGP Cymru i ddod o hyd i wybodaeth




Rwy'n defnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol TGP Cymru i gael y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau



Fe wnaeth TGP Cymru fy helpu i weld bod modd i mi ddefnyddio fy sgiliau a fy ngalluoedd i gyflawni fy amcanion



Roeddwn o'r farn bod gweithio gyda TGP Cymru o gymorth



Sylwadau Ychwanegol gan rieni a gofalwyr

“Do, rhoddodd llawer o gefnogaeth ac mae wedi helpu fy nheulu agos a’r teulu i gyd! Mae wedi rhoi gwybod i ni ble gallen ni ddod o hyd i gefnogaeth ariannol ac ati, sydd wedi bod o fudd mawr i bawb y mae wedi’u helpu.”

“Ydi, mae bob amser yn amlinellu ac yn egluro ein hawliau, a gwrandawodd arnom a rhoddodd gefnogaeth ym mhob ymholiad, cwestiwn ac ati. Rydym yn teimlo’n well bob amser ar ôl siarad gyda hi.”

“Hynod gefnogol ac wedi rhoi llawer o help! Wirioneddol wedi fy helpu i’n bersonol gyda cheisio rheoli a delio gyda’r teulu a’u heriau.”

“Alla’ i ddiolch yn fawr iawn hefyd i.....? Hi yw eiriolwr fy meibion ac mae’n arwres! Yn aml mae pobl yn anfon e-bost i gwyno, a ‘dw i’n meddwl ei bod hi’n bwysig anfon e-bost i roi gwybod pa mor falch ydym o’i chael hi’n gweithio gyda ni!”

